**PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT**

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 10 Mehefin, 2021.

Mae'r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd G.C. Kemp (Cadeirydd); Y Cynghorydd Ms. R.M. Birch (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr S.J. Griffiths, N.P. Hodges, T.H. Jarvie, Mrs. J.M. Norman, A.C. Parker, Mrs. S.D. Perkes, L.O. Rowlands a N.C. Thomas.

Aelodau cyfetholedig: Dr. M. Price (Yr Eglwys Gatholig) a Mrs. J. Lynch-Wilson (Rhiant-lywodraethwr – Sector Cynradd).

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio).

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mai, 2021 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Cyhoeddodd y Cynghorydd Mrs. S.D. Perkes ddiddordeb mewn perthynas ag Eitem Rhif 4 ar yr Agenda – Astudiaethau Achos Estyn o Ymarfer Effeithiol yn Ysgolion Bro Morgannwg ac Eitem Rhif 5 ar yr Agenda – Datblygiad mewn Ymarfer Dysgu Cyfunol ac o Bell yn Ysgolion Bro Morgannwg. Natur y buddiant oedd bod y Cynghorydd yn Llywodraethwr a benodwyd gan Awdurdod Lleol ar gyfer Ysgol Gynradd Holton, yn unol ag Adran 18.3.3 (b) o God Ymddygiad yr Aelodau.

EITEM AGENDA 4. ASTUDIAETHAU ACHOS ESTYN O YMARFER EFFEITHIOL YN YSGOLION BRO MORGANNWG (CDS) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi'r enghreifftiau o arfer effeithiol a nodwyd gan Estyn.

(2) Nodi diolch y Pwyllgor i'r staff yn holl ysgolion Bro Morgannwg am eu gwaith caled a'u hymrwymiad.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 5. DATBLYGIAD MEWN YMARFER DYSGU CYFUNOL AC O BELL YN YSGOLION BRO MORGANNWG (CDS) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi canfyddiadau'r adroddiad a'r dulliau a ddatblygwyd gan ysgolion i sicrhau bod dysgu a chefnogaeth yn parhau ar gyfer lles ac ymgysylltiad dysgwyr.

(2) Nodi diolch y Pwyllgor i'r staff yn holl ysgolion Bro Morgannwg am eu hymdrechion i gefnogi dysgwyr.

<u>Rheswm dros yr argymhellion</u>

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 6. GWASANAETH PROFI OLRHAIN DIOGELU CAERDYDD A'R FRO YN CEFNOGI CYMUNEDAU LLEIAFRIFOEDD ETHNIG (RG) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi gwaith gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu Caerdydd a'r Fro yn cefnogi cymunedau lleiafrifoedd ethnig i gyrchu profi a brechu COVID-19.

(2) Cyfeirio'r adroddiad i'r Cabinet am eu gwybodaeth a'u hymwybyddiaeth.

(3) Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad, dylid dosbarthu'r adroddiad i'r holl Gynghorwyr, aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac aelodau'r Fforwm Ymgynghorol Cydraddoldebau am eu gwybodaeth a'u hymwybyddiaeth.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Er mwyn galluogi'r Cabinet i ystyried cynnwys yr adroddiad.

(3) Rhoi gwybodaeth i Aelodau a phartneriaid am y gwaith yn y maes gweithgaredd hwn.

EITEM AGENDA 7. ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL SAFONAU IAITH CYMRU 2020-21 (RG) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi cynnwys yr adroddiad ac Atodiadau 1 a 2.

(2) Cyfeirio'r adroddiad (gan gynnwys atodiadau) i'r Cabinet i'w ystyried ac i gymeradwyo Adroddiad Monitro Blynyddol Cymraeg 2020/21 (Atodiad 1) i'w gyhoeddi erbyn 30 Mehefin, 2021.

(3) Dylid anfon i’r Cabinet sylwadau'r Pwyllgor ynghylch yr angen i symud ymlaen yn gryfach wrth ystyried sefydlu Canolfan Gymraeg yn y Fro er mwyn eu hystyried.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Caniatáu i'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswydd adroddi i'r Comisiynydd Cymraeg fel rhan o Safonau'r Gymraeg trwy Adroddiad Monitro Blynyddol Cymraeg 2020/21.

(3) Er mwyn sicrhau bod barn y Pwyllgor yn cael ei hystyried cyn cymeradwyo Adroddiad Monitro Blynyddol Cymraeg 2020/21 (Atodiad 1).